

Panel Cynggori ar Amaethyddiaeth Cymru

Adroddiad Blynyddol

1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017



Panel Cynggori ar Amaethyddiaeth Cymru yn ei gyfarfod cyntaf ar 24 Mehefin 2016. O'r chwith i'r dde Darren Williams (FUW), Daryl Williams (UNITE), Ivan Monckton (UNITE) Dr Lionel Walford (annibynnol - Cadeirydd) Peter Rees (Annibynnol) John Davies (NFU) a Steven Hughson (Annibynnol).

Rhagair gan y Cadeirydd

Roedd sefydlu y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru yn ddatblygiad o bwys er mwyn dod â chynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr at ei gilydd i ystyried isafswm tâl ac amodau cyflogi gweithwyr o fewn y sector amaethyddol yng Nghymru.

Mae swyddogaeth y Panel o gynghori Gweinidogion Cymru yr un mor bwysig, o ran y ffyrdd gorau o wella perfformiad busnesau drwy nodi ac ymateb i anghenion sgiliau y rhai hynny sy'n gweithio ym maes amaethyddiaeth, gweithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys datblygu sgiliau gweithwyr trwy ddatblygu proffesiynol a sicrhau bod gan newydd-ddyfodiaid y sgiliau angenrheidiol i ymateb i heriau yn y dyfodol.

1. Cyflwyniad

Sefydlu'r Panel

Cylch gwaith y Panel

4

2. Gweithrediad y Panel

Aelodaeth

Rôl yr aelodau

Swyddogaethau'r Panel

Cefnogi gweithrediad y Panel

Gorfodi Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol

4

5

6

3. Cyfarfodydd y Panel

6

4. Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016

Canllawiau ar Orchymyn 2016

Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol yn y dyfodol

7

5. Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

8

6. Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant

8

7. Adolygu

Adolygiad Llywodraeth Cymru o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad

9

Atodiad 1

Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru - Aelodaeth

11

Atodiad 2

Deddfwriaeth a chanllawiau, gan gynnwys dolenni

13

Atodiad 3

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

15

1. **Cyflwyniad**

1.1 Dyma'r Adroddiad Blynnyddol cyntaf ar gynnydd a gweithrediad Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru. Mae'n ymdrin â'r cyfnod o fis Ebrill 2016 pan sefydlwyd y Panel tan 31 Mawrth 2017.

Sefydlu'r Panel

1.2 Sefydlwyd Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (y Panel) o dan DDeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Daeth Gorchymyn Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 Rhif 255 (W.89) i rym ar 1 Ebrill 2016.

Mae gan y Panel gylch gwaith statudol i:

- hyrwyddo gyrfaedd mewn amaethyddiaeth;
- drafftio Gorchymynion Cyflogau Amaethyddol a chyflwyno cynigion drafft ar gyfer gorchymynion cyflogau amaethyddol yn nodi isafswm cyfraddau cyflog a rhai lwfansau a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo;
- cyngori Gweinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â'r sector amaethyddol yng Nghymru fel sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru. Gall Gweinidogion Cymru bennu swyddogaethau pellach i'r Panel.

1.3 Gellir gorfodi Gorchymynion Cyflogau'n gyfreithiol ac mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i ymchwilio i gwynion a godwyd ynghylch diffyg cydymffurfio â'r darpariaethau.

2. **Gweithrediad Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (y Panel)**

2. Sefydlwyd y Panel gan Orchymyn Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 (Gorchymyn y Panel) ar 1 Ebrill 2016. Roedd y gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r panel gyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

Aelodaeth

2.2 Mae'n ofynnol yn ôl Deddf 2014 i aelodaeth y Panel adlewyrchu buddiannau'r sector amaethyddol yn ddigonol ac i'r aelodau feddu ar y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

2.3 Mae'r Panel yn cynnwys saith aelod. Mae cyfansoddiad y Panel yn seiliedig ar ganlyniad dau ymarfer ymgynghori cyhoeddus a mewnbwn pellach gan randdeiliaid allweddol. Mae'r Panel yn cynnwys 2 gynrychiolydd o'r undebau ffermio yng Nghymru, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU Cymru); 2 gynrychiolydd gweithwyr o UNITE a 3 aelod annibynnol (yn cynnwys y Cadeirydd) sydd ag arbenigedd perthnasol.

2.4 Dewiswyd yr aelodau annibynnol, gan gynnwys y Cadeirydd annibynnol, drwy'r

broes Penodiadau Cyhoeddus a'u penodi gan Weinidogion Cymru. Mae NFU Cymru, FUW ac UNITE wedi gwarantu cynrychiolaeth ar y Panel er mwyn sicrhau cydbwysedd o ran buddiannau.

2.5 Penodir yr aelodau annibynnol gan Weinidogion Cymru. Pedair blynedd yw tymor Aelodau Annibynnol yn y swydd gyda'r posibilrwydd o ailbenodi. Enwebir yr aelodau cynrychioliadol gan y sefydliadau a gynrychiolir ganddynt.

2.6 Penodir aelodau sy'n gynrychiolwyr am dair blynedd yn y lle cyntaf a gellir eu henwebu i'w hailbenodi mor aml ag y dymuna'r sefydliadau a gynrychiolant. Rhestrir yr aelodau presennol yn **Atodiad 1**.

Rôl Aelodau

2.7 Rôl yr aelodau cynrychioliadol yw defnyddio'u harbenigedd wrth gynrychioli buddiannau eu haelodau ar y materion allweddol yn nhrafodaethau'r panel a chynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

2.8 Prif rôl aelodau annibynnol y Panel yw defnyddio'u barn arbenigol mewn trafodaethau ar faterion allweddol a chynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

2.9 Mae gan holl aelodau'r Panel gyfrifoldeb allweddol i helpu i sicrhau y cyflwynir Gorchymynion drafft teg a rhesymol ar faterion sy'n ymwneud â lefelau isafswm cyflog a thelerau ac amodau perthnasol ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru fel y'u diffinnir yn Neddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

2.10 Mae Gorchymyn y Panel yn amlinellu materion gweithdrefnol sylfaenol y Panel, gan gynnwys penodi ac ymddiswyddiad aelodau, swyddi gwag a threfniadau cyfarfodydd.

Swyddogaethau Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (y Panel)

2.11 Yn unol â Deddf 2014, mae swyddogaethau'r Panel yn cynnwys

- Hyrwyddo gyrfaedd mewn amaethyddiaeth;
- Paratoi gorchymynion cyflogau amaethyddol ar ffurf drafft, gan ymgynghori ar y gorchymynion hyn a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo;
- Darparu cyngor ar faterion yn unol â gofynion Gweinidogion Cymru.

2.12 Yn unol â Gorchymyn y Panel bydd gan y Panel gyfrifoldeb i:

- benderfynu ar ei weithdrefnau ei hun;
- sefydlu'r Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant ac is-bwyllgorau eraill fel y bo'n briodol;
- penderfynu ar y gweithdrefnau ar gyfer yr is-bwyllgorau;
- cael cyngor arbenigol.

Cefnogi gweithrediad y Panel

2.13 Cefnogir gweithrediad y Panel gan Reolwr Panel o fewn Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae cwmni cyfreithiol allanol wedi'i benodi i gynghori'r Panel ynghylch unrhyw faterion cyfreithiol sy'n codi gan gynnwys drafftio gorchmynion cyflogau amaethyddol.

2.14 Nid oes gan y Panel unrhyw gyllideb ei hun ac mae'n defnyddio arian a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyllid cyfyngedig ar gael i gomisiynu astudiaethau a gwaith ymchwil pellach ar unrhyw feysydd penodol y bydd y Panel yn dymuno eu hystyried yn eu proses o wneud penderfyniadau. Mae angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer cael unrhyw gyngor a all arwain at gostau.

2.15 Mae'r gwariant ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithredu'r Panel wedi dod i gyfanswm o £42,000 sydd wedi cynnwys treuliau'r Panel a chost cyngor cyfreithiol.

2.16 Mae manylion cyswllt Rheolwr y Panel wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1**

Gorfodi Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol

2.17 Mae Ysgrifennydd y Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwestiynau neu gwynion am ddiffyg cydymffurfio â Gorchmynion Cyflogau. Mae swyddogion y llywodraeth yn ymdrin ag ymholiadau a chwynion gan gyflogwyr a gweithwyr. Nid yw'r meysydd uchod yn rhan o gyfrifoldeb y Panel.

3. Cyfarfodydd y Panel

3.1 Ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2016, mae'r Panel wedi cyfarfod bedair gwaith, ym mis Mehefin, Medi a Hydref 2016 ac ym mis Mawrth 2017. Cyhoeddir cofnodion pob cyfarfod ar wefan y Panel.¹ Bydd adroddiadau blynyddol a gyhoeddir bob blwyddyn yn crynhoi gweithrediad y Panel (1 Ebrill-31 Mawrth), a fydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Panel.

Cynhaliwyd y **cyfarfod cyntaf** ar 24 Mehefin 2016.

3.2 Trafododd y Panel eu cynllun ar gyfer 2016-17, eu cylch gorchwyl a ffyrdd o weithio. Cafodd cyhoeddusrwydd ar gyfer y cyfarfod hwn ei wthio o'r neilltu gan ganlyniad y refferendwm a gyhoeddwyd ar yr un diwrnod. Cafodd llun y Panel yn ei gyfarfod cyntaf ei gyhoeddi yn rhifyn haf 2016 o gylchgrawn Gwlad a'i arddangos a'i rannu yn ystod Sioe Frenhinol Cymru 2016. Roedd y Panel yn canolbwyntio ar

¹ <http://llyw.cymru/panelcynghoriamaehtyddiaeth>
<http://gov.wales/agriculturaladvisorypanel>

sefydlu ei Is-bwyllgor ar ddatblygiad gyrfa ar y cyfle cyntaf posib. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel - fel yr oedd trafodaeth ar ddrafftio Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2017.

3.3 Bu cynghorwyr cyfreithiol y Panel yn ymwneud â thrafodaethau ar gynigion ar gyfer y broses o ddrafftio gorchymyn cyflogau 2017 gan gynnig cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen.

Cynhaliwyd **yr ail gyfarfod** ar 8 Medi.

3.4 Mae Adran 2 (2) (b) yn gosod dyletswydd ar y Panel i baratoi gorchmynion cyflogau ar ffurf ddrafft ac ymgynghori ar orchmynion o'r fath. Roedd yr ail gyfarfod yn canolbwyntio'n bennaf ar y cynigion ar gyfer gorchymyn cyflogau newydd a newidiadau arfaethedig i gyfraddau isafswm cyflog ac amodau. Cyflwynodd cynrychiolwyr yr undebau ffermio yng Nghymru eu barn ac ymateb i sylwadau trylwyr y gweithwyr cyflogedig a gyflwynwyd mewn papur gan UNITE. Cafwyd trafodaeth i ddilyn cyn i'r Panel gytuno drwy benderfyniad y mwyafrif.

3.5 Yn unol â'r gofyniad statudol, cynhaliodd y Panel ymgynghoriad wedi'i dargedu ar y cynigion yn ystod yr hydref 2016. Drafftwyd gorchymyn cyflogau 2017 gan gwmni cyfreithiol annibynnol allanol a benodwyd i gefnogi gwaith y Panel.

3.6 Cafwyd trafodaeth fanwl hefyd am y ffordd orau i sefydlu'r Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant. Yn dilyn y cyfarfod sefydlwyd yr Is-bwyllgor a chyfarfu am y tro cyntaf ar 11 Tachwedd 2016.

Cynhaliwyd **y trydydd cyfarfod** ar 24 Hydref 2016.

3.7 Trafododd y Panel y cynigion a'r broses ymgynghori. Ystyriodd y Panel y ddau ymateb a dderbyniwyd cyn symud ymlaen i gyfarwyddo eu cynghorwyr cyfreithiol i baratoi gorchymyn drafft. Awgrymodd un ymateb y dylai'r Panel dibynnu ar "drefniadau cenedlaethol" darpariaeth y DU, sef cyfraith y DU ac roedd y llall yn gofyn am eglurhad ar bwyntiau penodol, a ddarparwyd yn ystod trydydd cyfarfod y Panel.

3.8 Yn ystod eu trydydd cyfarfod cytunodd y Panel i'r cynigion ar gyfer diwygiadau i Orchymyn Cyflogau 2016 sydd yn **Atodiad 3**.

3.9 Cyflwynodd y Panel eu cynigion i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru a'u cyflwyno ar gyfer craffu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda'r bwriad iddynt ddod i rym ar 1 Ebrill 2017.

4. Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016

4.1 Roedd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i gyflwyno gorchymyn cyflogau amaethyddol os a phan oedd angen cyn i'r Panel gael ei sefydlu (Adran 4(2) o Ddeddf 2014). Roedd y gorchymyn hwn yn fesur dros dro ac roedd i barhau mewn grym tan i orchymyn cyflogau newydd gael ei wneud yn seiliedig ar argymhellion y

Panel.

4.2 Roedd Gorchymyn 2016 yn cynyddu cyflogau tua 6% ar gyfer pob gradd a chategori o weithwyr, ac eithrio Gradd 1 sydd 2c uwchben yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW) ar hyn o bryd. Mae'n cadw strwythur graddio'r gorchymyn blaenorol fel y mae drafft Gorchymyn 2017, er mwyn sicrhau parhad a chynnal y cymhelliant i gynyddu lefelau sgiliau. Mae Gorchymyn 2016 yn cynnwys atodlenni diwygiedig o ddyfarniadau a thystysgrifau cymhwysedd perthnasol sy'n helpu i bennu gradd y gweithiwr. Mae'r atodlenni wedi'u paratoi gan Lantra yng ngoleuni'r newidiadau i'r fframwaith addysgol a theitlau tystysgrifau. Mae hyn yn wir am Orchymyn 2017 hefyd.

Canllawiau ar Orchymyn 2016

4.3 Cyhoeddwyd canllawiau gan Lywodraeth Cymru i helpu gweithwyr a chyflogwyr ddeall y gofynion statudol o dan bob Gorchymyn Cyflogau a gyflwynwyd. Y nod yw cyflwyno canllawiau sy'n hawdd eu defnyddio a'u dilyn, gydag enghreifftiau o sut i gyfrifo hawliau penodol, megis absenoldeb gwyliau a thâl a thâl salwch amaethyddol ar gyfer pob Gorchymyn. Gweler y ddolen yn Atodiad 2.

Cyhoeddir y canllawiau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru.

<https://beta.llyw.cymru/cyflogau-amaethyddol-cymru-2016>

4.4 Y bwriad yw y bydd y canllawiau'n cael eu diweddarau yn ôl yr angen dros amser a phan fydd gorchmynion newydd yn cael eu cyflwyno. Gwahoddir awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys yn fersiwn ddiwygiedig y canllawiau neu geisiadau am eglurhad pellach.

Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol yn y dyfodol

4.5 Yn unol â Deddf 2014, mae'n ofynnol i'r Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth baratoi gorchmynion cyflogau amaethyddol yn y dyfodol ar ffurf ddrafft, ac ymgynghori arnynt a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Bydd gorchmynion cyflogau newydd yn cael eu gwneud o dan weithdrefn negyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Ystyr gweithdrefn negyddol yw y bydd y gorchmynion yn cael eu llofnodi a'u gosod gerbron y Cynulliad ac ni fyddant yn dod i rym am o leiaf 21 o ddiwrnodau ar ôl cael eu gosod fel arfer.

5. Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

5.1 Cyfarwyddyd y Panel yw cadw'r strwythur graddio yng Ngorchymyn 2017 i gynnal y cymhelliant i gynyddu lefelau sgiliau a hybu datblygiad gyrfa yn y sector amaeth. Mae aelodau'r Panel wedi awgrymu y gall newidiadau pellach mwy sylfaenol gael eu hargymhell ar gyfer gorchmynion yn y dyfodol. Mae cynigion y Panel yn **Atodiad 3** ac mae'r gorchymyn cyhoeddedig ar gael yn [<link>](#)

6. Yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant

6.1 Mae Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) yn galluogi'r Panel i benodi is-bwyllgorau ac mae'n gosod dyletswydd statudol i sefydlu Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant parhaol. Mae'r is-bwyllgor yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Mae dyletswydd statudol i gynnwys Lantra a'r CFFl fel aelodau. Mae'n cael ei gadeirio gan aelod annibynnol ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o blith cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr yn ogystal ag arbenigwyr ar ddatblygu sgiliau. Rhestrir yr aelodau presennol yn **Atodiad 1**.

6.2 Sefydlwyd yr Is-bwyllgor yn 2016 gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 11 Tachwedd 2016. Trafododd yr Is-bwyllgor adroddiadau amrywiol ar ddatblygiad sgiliau a hyfforddiant yn y sector i lywio eu gwaith. Aethant ati'n syth i roi cychwyn i waith i ymchwilio i anghenion y sector ac adolygu ymchwil, adroddiadau a llenyddiaeth berthnasol i lywio eu barn ac adeiladu cyngor cadarn i ysgogi gwelliannau.

6.3 Disgwylir i'r Is-bwyllgor adrodd yn ôl i'r Panel a gwneud argymhellion ar y camau gweithredu a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni gwelliannau.

7. Adolygu.

7.1 Fel Cyrff Cyhoeddus Anadrannol eraill, mae'r Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth yn cael ei adolygu yn unol â Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 <Link>

7.2 Diben y Ddeddf yw darparu sylfaen strwythurol pwysig ar gyfer sector amaeth effeithiol ac effeithlon gyda chyflenwad digonol o weithwyr amaethyddol sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cael tâl priodol, sy'n gallu gweld amaethyddiaeth fel opsiwn gyrfa tymor hir. Bydd gweithwyr profiadol, sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac yn llawn cymhelliant yn dod â manteision cadarnhaol i effeithlonrwydd a chynhyrchiant amaethyddiaeth yng Nghymru.

7.3 Mae'r isaswm cyfraddau amaethyddol a'r anogaeth a roddir i ddatblygiad gyrfa yn y Ddeddf yn rhwyd ddiogelwch ac yn gymhelliant i weithwyr ddatblygu eu gyrfaedd.

Adolygiad Llywodraeth Cymru o DDeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

7.4 Yn ystod gwaith craffu deddfwriaethol ar DDeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 wrth iddi symud ymlaen at ddod yn gyfraith, ystyriwyd y dylid cynnwys "adran machlud" yn y Ddeddf fel y byddai darpariaethau yn dod i ben ar ôl cyfnod penodol o amser os nad oes dim yn cael ei wneud i'w cadw. Teimlwyd y byddai hynny'n sicrhau lefel briodol o graffu ar effeithlonrwydd a gweithrediad y Ddeddf.

7.5 Mae Deddf 2014 yn nodi gofyniad statudol i adolygu effeithlonrwydd. Dywed adran 13 bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf o fewn tair blynedd i roi Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf, sy'n golygu

30 Gorffennaf 2017. Mae yna ddyletswydd statudol wedyn i gyflwyno'r adroddiad ar yr adolygiad yn ffurfiol at sylw'r Cynulliad Cenedlaethol a bydd yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny.

7.6 Dylai'r adolygiad gynnwys gwybodaeth am effaith y Ddeddf ar weithwyr amaethyddol, cyflogwyr a'r sector amaethyddol yn gyffredinol.

7.7 Os gwneir penderfyniad i barhau â darpariaethau'r Ddeddf sy'n cynnwys y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth, yn ogystal â chyflwyno a gorfodi deddfwriaeth isafswm cyflog amaethyddol yn unol ag Adran 14, efallai y bydd Gorchymyn i gadw Deddf 2014 yn cael ei osod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r pwerau angenrheidiol gan Weinidogion Cymru i wneud Gorchymyn o'r fath. Rhaid i'r Gorchymyn fod ar waith erbyn 30 Gorffennaf, 2018 fan bellaf, sef blwyddyn yn ddiweddarach na'r cyfnod adolygu.

7.8 Os na wneir Gorchymyn, yna bydd effaith y Ddeddf yn dod i ben. Bydd y rhwyd diogelwch a'r cymhellion ar gyfer datblygu gyrfa a ddarperir gan y Gorchymyn yn dod i ben hefyd, felly hefyd gylch gwaith statudol y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth. Byddai'r darpariaethau Isafswm Cyflog a Chyflog Byw Cenedlaethol yn parhau'n gymwys. Byddai telerau ac amodau'r gorchymyn cyflogau presennol yn parhau mewn grym tan y byddai contractau cyflogaeth yn cael eu diwygio yn unol â chyfreithiau cyflogaeth.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad

7.9 Diben yr ymgynghoriad yw cael safbwyntiau a chyfraniadau i'r adolygiad o weithrediad ac effeithiolrwydd Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

7.10 Mae'r ymgynghoriad yn gofyn

- a) A yw darparu'r Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth gan y Ddeddf, a'i waith ar ddatblygiad gyrfa, pennu lefelau isafswm cyflog a lwfansau amaethyddol yn effeithiol ac a ddylai barhau.

Neu

- b) A ddylai Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ddod i ben. Byddai hyn yn cael gwared ar yr holl drefniadau presennol ar gyfer gweithwyr amaethyddol, gan adael i'w cyflog a'u hamodau gael eu pennu o dan gyfraith cyflogaeth gyffredinol. Byddai'n cael gwared ar sylfaen cyfreithiol y Panel, ei Is-bwyllgor ar Ddatblygu Sgiliau a Hyfforddiant a'i rôl ymgynghorol.

Atodiad 1

Panel Cyngtori ar Amaethyddiaeth Cymru - Aelodaeth

Mae'r Panel yn cynnwys saith aelod; 4 cynrychiolydd o'r undebau (2 o UNITE), 1 o'r FUW (Undeb Amaethwyr Cymru) ac 1 o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru); 2 aelod annibynnol (a ddewisir drwy broses Penodiadau Cyhoeddus) a Chadeirydd annibynnol (a ddewisir drwy broses Penodiadau Cyhoeddus).

Aelodaeth 1 Ebrill 2016

Dr Lionel Walford	Annibynnol – Cadeirydd
Mr Daryl Williams	UNITE
Mr Ivan Monckton	UNITE
Mr Darren Williams	FUW
Mr John Davies	NFU
Mr Peter Rees	Annibynnol
Mr Stephen Hughson	Annibynnol.

Aelodaeth 1 Ebrill 2017

Dr Lionel Walford	Annibynnol – Cadeirydd
Mr Bryan Godsell	UNITE
Mr Ivan Monckton	UNITE
Mr Darren Williams	FUW
Mr John Davies	NFU
Mr Peter Rees	Annibynnol
Mr Stephen Hughson	Annibynnol

Is-bwyllgor Parhaol ar Ddatblygu Sgiliau a Hyfforddiant – Aelodaeth

Sefydlodd Panel Cyngtori ar Amaethyddiaeth Cymru ei Is-bwyllgor parhaol ar Ddatblygu Sgiliau a Hyfforddiant yn unol â Gorchymyn Panel Cyngtori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016.

Cyfarfu'r Is-bwyllgor am y tro cyntaf ar 11 Tachwedd 2016. Mae'r aelodaeth yn cynnwys arbenigwyr o bob rhan o'r diwydiant. Maent yn cynnwys cynrychiolwyr undebau, academyddion ac arbenigwyr gydag ehangder o arbenigedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion sgiliau a hyfforddiant yn y sector amaethyddiaeth, yn ogystal â chyfleoedd datblygu gyrfa. Mae yna aelodau cynrychioliadol o CFfl a Lantra fel y nodir yn y Gorchymyn.

Aelodaeth Bresennol

Dr Lionel Walford	Cadeirydd Annibynnol
Mr Peter Rees	Annibynnol Addysg
Mr Stephen Hughson	Annibynnol Amaethyddiaeth

Mr Bryan Godsell	UNITE
Mr Ivan Monckton	UNITE
Kevin Thomas	Lantra
Nia Lloyd	CFfl Cymru
Helen Evans	CFfl Cymru - Aelod Is-bwyllgor
Alun Elidyr Edwards	Addysg Amaethyddol FUW
David B Jones	Prif Weithredwr Coleg Cambria
Will Prichard	NFU

Disgwylir i'r Is-bwyllgor gyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor ar Ddatblygu Sgiliau a Hyfforddiant
<https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A15861628/document/versions/published>

Gellir cysylltu â Rheolwr y Panel
Drwy'r post

Rheolwr y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth,
Llywodraeth Cymru,
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR.

Drwy e-bost

slmenquiries@wales.gsi.gov.uk

Atodiad 2

Deddfwriaeth a chanllawiau

Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/6/contents/enacted>

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau ar gyfer

- Sefydlu Panel Cyngtori ar Amaethyddiaeth Cymru
- Gwneud gorchmynion sy'n gosod y telerau ac amodau ar gyfer pobl a gyflogir mewn amaethyddiaeth yng Nghymru (gweithwyr amaethyddol)
- Gorfodi'r telerau ac amodau hynny

Mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd – tan fis Mehefin 2017

Gorchymyn Panel Cyngtori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/255/made>

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu'r Panel fel corff cyngtori annibynnol i Weinidogion Cymru. Swyddogaethau'r Panel yw hyrwyddo gyrfaedd mewn amaethyddiaeth, paratoi gorchmynion cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, ymgynghori ar orchmynion o'r fath i'w cyflwyno i Weinidogion Cymru a chynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol yng Nghymru.

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/107/made>

Dywed y Gorchymyn hwn bod gweithwyr amaethyddol i gael eu cyflogi yn unol â'r telerau ac amodau sydd yn Rhannau 2-5 (erthygl 3) ac mae'n pennu graddau a chategoriâu gwahanol o weithiwr amaethyddol (erthyglau 5-12)

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch isafsymiau cyfraddau cydnabyddiaeth ariannol sy'n rhaid eu talu i weithwyr amaethyddol (erthygl 13) a darpariaethau eraill ar gyfer lwfansau.

Dywed Rhan 4 bod gan weithiwr amaethyddol hawl i dâl salwch amaethyddol mewn amgylchiadau penodol (erthyglau 19-22) a'r hawl (erthygl 24) a chyfrifiad o'r swm (erthygl 23).

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i amser o'r gwaith, gan gynnwys cyfnodau egwyl, gwyliau blynyddol a thâl gwyliau.

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

Mae hwn yn cael ei ystyried a bydd yn cael ei ychwanegu yma pan ddaw i rym.

Ymgynghoriadau Cyfredol

Bydd ymgynghoriadau cyfredol yn gofyn yn benodol am eich barn yn cael eu hychwanegu yma. Mae croeso i'ch barn bob amser, felly peidiwch â theimlo bod angen i chi ddisgwyl am gyfle.

Canllawiau:

Agriculture Wages in Wales 2016: A Guide for Workers and Employers No 1

<https://www.gov.uk/agricultural-workers-rights/overview>

Dyma'r cyntaf yn yr hyn a fwriedir i fod yn gyfres o ganllawiau ar orchmynion cyflogau sydd mewn grym. Os oes gennych gwestiynau nad ydynt yn cael eu trafod rhowch wybod i ni.